Rhaglen cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor

Dydd Mawrth 25 Medi 2018, Canolfan Glaslyn Porthmadog

1. Ymddiheuriadau
2. Datgan buddiant personol
3. Materion brys / Cyhoeddiadau'r Cadeirydd
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, Warws Gwerdd Cibyn, Caernarfon
5. Materion yn codi
6. Gohebiaeth yn berthnasol i welliannau A55 Abergwyngregyn I Dai Meibion
7. Ymgynghoriad cyhoeddus Cyngor Gwynedd - Pa wasanaethau Cyngor sydd bwysicaf i bobl Gwynedd?

   www.gwynedd.llyw.cymru/Blaenoriaethu
8. Llwybr yr Arfordir : Rhys Roberts
9. Adolygiad CGHT – gofyn barn y Fforwm ar fater categoreiddio hawliau tramwy
10. Cyflwyniad byr i Ddatganiadau Ardal
11. Materion cynllunio
12. Dyddiadau cyfarfodydd nesaf **: 4 Rhagfyr**

Cyfarfod Fforwm Mynediad

Canolfan Glaslyn, Porthmadog

25/09/2018

Presennol:		
Enw / Names		
Vincent Mears	VM	Cadeirydd
David Medcalf	DM1	Is-Gadeirydd
Noel Davey	ND	Aelod
Denise Meldrum	DM2	Aelod
Caroll Ann Morris	CM	Aelod
Richard Parry	RP	Aelod
Peter Rutherford	PR	Aelod
Eurwyn Edwards	EE	Aelod
Peter Hewlett	PH	Aelod
Tracey Williams	TW	Aelod
Emlyn Jones	EJ	Aelod
Mike Vitkovitch	MV	Aelod
Malcolm Winstanley	MW	Aelod
Cynghorydd Gruff Williams	GW	Aelod
Nerys John	NJ	Aelod
John Gladston	JG	Aelod
Jan Underwood	JU	Aelod
Wyn Williams	WW	Rheolwr Cefn Gwlad
Rhys Roberts	RhR	Cyngor Gwynedd
Molly Lovatt	ML	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwenno Lloyd Jones	GJ	Cofnodion
Ymddiheuriadau:		
Ken Owen		
Morgan Jones-Parry		
Elwyn Jones		
Gethin Davies		
Marian Evans		

1.	**Croeso ac Ymddiheuriadau** Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. Ymddiheurodd y cadeirydd ei fod angen gadael y cyfarfod yn gynt. Cytunodd yr is-gadeirydd i gymryd yr awenau ar ôl iddo adael.
2.	**Datgan buddiant personol** Cynigiodd y cadeirydd i unigolion ddatgan pe byddai un rhywbeth ar yr agenda o ddiddordeb personol fyddai'n eithrio rhag cymryd rhan.
3.	**Materion Brys / Cyhoeddiadau'r Cadeirydd** Cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol ar aelodau i'r is-grŵp fforwm i drafod Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Nid oes unrhyw gyfarfod wedi cael ei drefnu eto. Cadarnhawyd y bydd WW a PR yn cysylltu yn fuan â DM, MV a TW i drefnu cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch.

Cyfarfod Fforwm Mynediad

Canolfan Glaslyn, Porthmadog

25/09/2018

4.	**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26 Mehefin, Warws Gwerdd Cibyn, Caernarfon.** Cynigwyd fod y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol yn gywir. Nododd ND fod croeso i unrhyw un gysylltu am fwy o wybodaeth ynglŷn ag eitem 5. Cadarnhawyd nad oes unrhyw ddiweddariad eto.
5.	**Materion yn codi** Nifer o brosiectau yn mynd ymlaen gan JG ond heb dderbyn unrhyw ymateb.
6.	**Gohebiaeth yn berthnasol i welliannau A55 Abergwyngregyn i Dai Meibion.** Esboniodd MV fod gorchymyn wedi ei greu a'r cynllun yn cael ei roi ar waith. Nododd fod gwrthwynebiadau a chynigion i ddelio a'r gwrthwynebau yn y ddogfen ynghlwm i agenda'r cyfarfod. Awgrymodd y bydd y gwaith yn dechrau flwyddyn nesaf. Nododd MW y bydd rhwystr concrid yn cael ei osod holl ffordd drwy'r canol. Cadarnhaodd y cadeirydd ei fod wedi gyrru llythyr ymlaen i Lywodraeth Cymru ynglŷn â ffordd osgoi Bontnewydd. Nododd MV ei fod wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru yn dweud eu bod am gydweithredu a'r Fforwm.
7.	**Ymgynghoriad cyhoeddus Cyngor Gwynedd – Pa wasanaethau Cyngor sydd bwysicaf i bobl Gwynedd?** www.gwynedd.llyw.cymru/Blaenoriaethau Trafodwyd ymgynghoriad cyhoeddus Cyngor Gwynedd. Esboniwyd fod modd printio copi caled. Yr ymgynghoriad yn trafod arbedion. Teimlwyd nad oedd pob agwedd yn berthnasol i'r Fforwm a dylid ymateb ar faterion o fewn cylch gwaith y fforwm. Cynigwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr ar ran y Fforwm Mynediad i egluro'u safbwynt. Eiliwyd y cynnig a chytunwyd i bawb ymateb iddo ac i'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr. Nodwyd bod Y Cyngor a'r Parc wedi llwyddo mewn sawl lle i ariannu prosiectau gwahanol gyda grantiau a bod cyfleoedd newydd i geisio am grantiau sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Nododd WW eu bod yn ceisio dilyn y cyfleoedd yma ond roedd diffyg arian cyfatebol yn aml yn rhwystr i wneud cais.
8.	**Llwybr yr Arfordir : Rhys Roberts** Rhoddodd Rhys Roberts drosolwg o brosiect llwybr yr arfordir. Mae Cymru wedi ei rannu i 5 rhanbarth. Rhys yw Swyddog Rhanbarthol i Wynedd. Yn y gorffennol roedd y Cyngor wedi derbyn arian sylweddol o gronfeydd Ewrop. Bellach mae cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru tuag at y llwybr arfordir yn genedlaethol yn £900,000 . Amcangyfrifir bod cost cynnal y llwybr yng Ngwynedd oddeutu £108,000, mae'r Cyngor yn derbyn grant sy'n 75% o'r gost (£81,000) tuag at gynnal y llwybr yng Ngwynedd. Rhaid i'r Cyngor roi 25% a gwneir hyn drwy amser staff.

Cyfarfod Fforwm Mynediad

Canolfan Glaslyn, Porthmadog

25/09/2018

	Rhoddodd RR drosolwg o'u prosiectau. Cyfeiriodd at safle we'r Llwybr Arfordir. Cadarnhaodd y dylid e-bostio/ffonio'r isod am wybodaeth neu i adrodd am broblem ar y llwybr arfordir. E-bost : llwybrauarfordir@gwynedd.llyw.cymru Ffon : 01758 704083 Cynigiodd RR i roi trosolwg o galendr 2019 yn y cyfarfod nesaf.
90.	**Adolygiad CGHT – gofyn barn y Fforwm ar fater categoreiddio hawliau tramwy** Esboniodd WW y bydd angen creu drafft cyn yr ymgynghoriad. Angen bod yn realistig yn y cynllun newydd gan ystyried y bydd toriad. Y cyllid gwreiddiol yn cynnig llawer mwy. Angen bod yn ofalus o beth sy'n cael ei gynnig a bod y greadigol. Un thema yn y cynllun ydy Categoreiddio. Fe gafodd y categoreiddio gwreiddiol ei sefydlu 15 mlynedd yn ôl. Yn wreiddiol roedd y llwybrau yn cael eu gosod mewn categori o 1 (pwysig) i 5 (lleiaf pwysig). Bellach mae'r categori wedi ei wasgu i 4. Mae gan y Cyngor raglen gyda diffiniad o'r categorïau. Hwnnw sydd wedi gyrru'r gwaith y gwasanaeth o safbwynt cynnal y llwybrau. Llwybrau Gwynedd i gyd o gwmpas 5800 o km. Llwybr Categori 1 – 591 km Llwybr Categori 2 – 1037km Llwybr Categori 3 – 1744km Llwybr Categori 4 – 313km Heb unrhyw gategori – 115km Gwynedd yn ceisio blaenoriaethu categori 1 a 2. Dirywiad yn y catgoriau eraill. Hyn yn dechrau amlygu ei hun wrth edrych ar y gwaith sydd wedi ei wneud ar y llwybrau yn 2018. Y gwasanaeth wedi cofnodi 1900 o ddarnau o waith. Amrywio o dorri tyfiant, gosod arwydd, newid giât etc. Nodwyd am y flwyddyn 2016 / 17 cofnodwyd 1840 darn gwaith ar hawliau tramwy: • 650 ar lwybrau categori 1, • 660 ar lwybrau categori 2 • 530 ar lwybrau gategori 3 a 4 . Pwrpas gwreiddiol y cynllun oedd blaenoriaethu adnoddau. Categorïau 1 a 2 fwyaf tebygol o gael eu cynnwys mewn cynlluniau grant. Nododd WW fod 55% o rwydwaith yn cael ychydig iawn o adnoddau. Er hyn mae mudiadau eraill fel y Parc Cenedlaethol a Chynghorau Cymuned yn cyfrannu tuag at waith ar hawliau tramwy'r Sir.

Cyfarfod Fforwm Mynediad

Canolfan Glaslyn, Porthmadog

25/09/2018

	Pwysleisiodd WW eu bod angen edrych os ydy'r system categoreiddio yn cyrraedd anghenion neu oes angen addasu mewn unrhyw ffordd arall. Roedd ymateb cadarnhaol i'r holiadur diwethaf gyda nifer yn datgan eu bod yn hoff o'r system yna. Y system dros 15 oed a llawer wedi newid ers hynny. Wrth barhau gyda'r cynllun gwreiddiol bydd modd cadw 45% o'r llwybrau ar lefel derbyniol ond bydd dirywiad yn y 55% arall. Esboniwyd fod y parc mewn sefyllfa anodd gan fod llawer o'u blaenoriaethau'r un a Gwynedd. Hynny am wneud pethau yn anodd i'r symiau. Yn y gorffennol bu ymdrech i adolygu'r categorïau drwy gysylltiad y Cyngor Cymuned. Bu ymdrech gwael y tro diwethaf. Gofynnwyd am ddiweddariad y map ar-lein. Esboniodd WW ei fod bron yn barod ond angen clirio materion eraill cyn ei rannu. Ymddiheurodd y cadeirydd ei fod yn gorfod gadael y cyfarfod. Cytunwyd y dylai'r is-grŵp drafod y mater ymhellach.
10	**Cyflwyniad byr i Ddatganiadau Ardal** Gwaith gan Gyfoeth Naturiol Cymru fesul ardal yng Nghymru. Edrych ar Wynedd, Môn a rhannau o Gonwy. Edrych ar fwy de lai bob dim sy'n digwydd yn yr ardal o nodweddu naturiol. Edrych ar y dirwedd , ecosystemau, coedwigoedd etc. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydlu eu blaenoriaethau a'u targedau gwaith. Yn sgil hyn bydd yn gyrru gwaith y cynghorau o ran ariannu gwaith a grantiau. Cynigiodd ML y byddai Nia Williams yn hapus i roi cyflwyniad i'r fforwm i roi blas o'r gwaith. Nododd PR fod Nia Williams yn cyfarfod gyda'r Parc yn fuan i roi cyflwyniad iddynt. Cytunodd WW i drefnu hynny ar gyfer y cyfarfod nesaf.
11.	**Materion cynllunio** Materion cynllunio yn dylanwadu ar lwybrau cyhoeddus. Cyngor Gwynedd yn derbyn tua 1000 o geisiadau cynllunio'r flwyddyn yn Arfon a Dwyfor. Mwyafrif y ceisiadau ddim efo elfen o waith sy'n gysylltiedig â llwybrau a mynediad ynddo. Mae'r Uned Cefn Gwlad yn derbyn gwybodaeth am geisiadau Cynllunio sy'n nodi bodolaeth hawliau tramwy. Mae staff yr Uned yn gwneud sylw os oes effaith ar lwybrau (hefyd am faterion coed, bioamrywiaeth ac effaith ar AHNE Llyn). Dim ond mewn nifer bychan o achosion mae yna effaith sylweddol a'r hawliau tramwy Ymddiheurwyd os oes unrhyw gais wedi ei fethu ond eglurwyd eu bod yn achosion prin. Esboniodd WW fod rhai achosion ble mae materion llwybrau ddim wedi cael ei adnabod gan y gwasanaeth cynllunio. Er hyn mae'r systemau wedi newid a gwella. Cytunwyd y dylid ei drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod y Fforwm.

Cyfarfod Fforwm Mynediad

Canolfan Glaslyn, Porthmadog

25/09/2018

12.	**UFA** Cyhoeddodd GW fod llwybr y Morwyr wedi ei agor o Abersoch i Nefyn. WW i gwblhau'r map. Rhannodd MW lyfrau cerdded y 'Ramblers'. Diolchodd yr is-gadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daethpwyd y cyfarfod i ben am 18:10yh.
13.	Dyddiad Cyfarfod nesaf : **4ydd Rhagfyr, 2018.**